PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# Datganiadau Canlyniadau Gradd 2020/21



Mae'r datganiad hwn yn rhoi dadansoddiad a throsolwg o'r tueddiadau ym mhroffiliau dosbarthiad graddau rhwng 2016/17 a 2020/21. Yn ogystal, mae'r ddogfen yn cynnwys disgrifiad o algorithm y Brifysgol ar gyfer cyfrifo graddau israddedig a throsolwg o'r hyn a wneir yn y sefydliad i sicrhau y creffir ar y broses asesu ac arholi.


## 1. PROFFIL DOSBARTHIAD GRADDAU'R SEFYDLIAD

Yn Nhabl 1 dangosir proffil canlyniadau graddau israddedig Prifysgol Bangor dros gyfnod o bum mlynedd hyd at flwyddyn academaidd 2020/21. Mae'r gyfran gyfunol o raddau dosbarth 1af a 2:1 (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel *graddau da*) wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y cyfnod, wedi ei ysgogi gan y cynnydd sylweddol yng nghyfran y graddau dosbarth 1$^{af}$ a ddyfernir (+19% ers 2016/17). Bu gostyngiad sylweddol yn y gyfran o raddau 2:2, 3ydd dosbarth a Llwyddo dros yr un cyfnod.

O gymharu â'r sector, mae'r rhifyn diweddaraf o The Times and Sunday Times Good University Guide yn gosod Bangor yn safle 85 (allan o 132) ar gyfer y dangosydd 1$^{af}$/2:1.

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gradd anrhydedd dosbarth cyntaf | 25% | 28% | 29% | 40% | 44% |
| Gradd anrhydedd ail ddosbarth uwch | 44% | 43% | 43% | 40% | 39% |
| Gradd anrhydedd ail ddosbarth is | 24% | 23% | 24% | 17% | 14% |
| Gradd trydydd dosbarth/llwyddo | 7% | 5% | 4% | 3% | 2% |
| 1af/2:1 (%) | 69% | 71% | 72% | 80% | 83% |

*Tabl 1. Proffil canlyniadau graddau israddedig Prifysgol Bangor* 2017 – 2021





*Ffigur 1. Dosbarthiad canlyniadau graddau israddedig Prifysgol Bangor 2016 - 2021*

Gwelir cyfran y gwahanol ddosbarthiadau gradd yn ôl meysydd pwnc[1] ym Mangor, ar gyfer 2020/21, yn Ffigur 2. Mae rhywfaint o amrywiaeth mewn dosbarthiadau gradd rhwng pynciau, gyda chyfran y cymwysterau dosbarth cyntaf yn amrywio o 74% ar gyfer y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, i 26% ar gyfer Ieithoedd Modern. Mae cyfran y graddau 2:1 yn amrywio o 59% ar gyfer Ieithoedd Modern, i 19% ar gyfer Peirianneg Electronig.

Mae'r gyfran o raddau 2:2 a ddyfarnwyd ar ei huchaf yn y Gwyddorau Iechyd (ac eithrio cyrsiau Addysg a Gwella Iechyd Cymru) a chyfran y graddau 3ydd dosbarth ar ei huchaf yn y Gwyddorau Iechyd (cyrsiau Addysg a Gwella Iechyd Cymru). Mae'r ystod ar draws pob pwnc o ran y gyfran o raddau 2:2 a 3ydd dosbarth a ddyfarnwyd yn 28% ac 10%, yn y drefn honno.

Mae ystod y graddau da a ddyfarnwyd hefyd yn amrywio, gyda Cherddoriaeth Drama a Datblygu, a Chymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, yn dyfarnu 100%, a saith pwnc yn dyfarnu dros 90%: Cyfraith, Athroniaeth a Chrefydd, Addysg (AGA), Cemeg, yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth, Ieithoedd Modern, ac Ieithyddiaeth a Dwyieithrwydd. Mae cyfran y graddau da a ddyfarnwyd yn is na chyfartaledd y Brifysgol o 83% mewn saith pwnc: Cyfrifiadureg, Busnes, Gwyddorau Meddygol, Peirianneg Electronig, Addysg (ac eithrio AGA), Gwyddorau Iechyd (ac eithrio cyrsiau Addysg a Gwella Iechyd Cymru), a Gwyddorau Iechyd (cyrsiau Addysg a Gwella Iechyd Cymru).

Ar draws pob pwnc ym Mhrifysgol Bangor roedd amrediad o 32% rhwng y gyfran uchaf a'r isaf o'r graddau da a ddyfarnwyd.




*Ffigur 2. Dosbarthiad canlyniadau gradd israddedig Prifysgol Bangor 2021, yn ôl pwnc*


[1] Dosbarthiad mewnol o bynciau Prifysgol Bangor yw hwn, yn seiliedig ar faes pwnc y cwrs gradd.

## 2. TUEDDIADAU DOSBARTHIAD GRADDAU A NODWEDDION Y MYFYRWYR

Mae'r Brifysgol fel rhan o'i hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac fel mater o drefn yn cynnal dadansoddiad cyrhaeddiad graddau ar gyfer ystod o nodweddion demograffig. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i leihau a chael gwared ar fylchau mewn cyrhaeddiad lle nodir bod rhai. O ran myfyrwyr o Gymru caiff yr ymrwymiadau hynny eu crynhoi yng Nghynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol. Mae Tabl 2 yn rhoi data cryno ar gyfer cyflawni graddau da ar gyfer chwe nodwedd ddemograffig. Mae data Tabl 2 yn ymwneud â phob myfyriwr israddedig, gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol, ac eithrio: cyfranogiad isel, sy'n fesur sy'n benodol i'r Deyrnas Unedig (yn seiliedig ar fyfyrwyr o ardaloedd POLAR) ac Ehangu Mynediad, sy'n ymwneud â myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn unig (yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).


Mae'r data'n dangos, a hynny dros gyfnod yr adolygiad, bod data'r holl nodweddion demograffig fwy neu lai'n adlewyrchu set ddata gyffredinol y Brifysgol, ac yn dangos cynnydd yng nghyfran y myfyrwyr sy'n cael graddau da (tabl 2) ym mhob grŵp ac eithrio un (cyfranogiad isel). Fodd bynnag, mae'r data'n dangos bod rhywfaint o amrywioldeb yng nghyfran y graddau da a ddyfarnwyd ymhlith gwahanol nodweddion demograffig. Ar draws y nodweddion demograffig, mae bylchau cyrhaeddiad o wahanol faint yn bodoli o ran cyfran y graddau da a ddyfarnwyd (gan amrywio rhwng +3.0 a -11.4%). Mae'n gadarnhaol nodi eu bod wedi lleihau yn 2021 ar gyfer nifer o grwpiau.

Dros y cyfnod adolygu, mae [2]myfyrwyr benywaidd yn gyffredinol wedi cael cyfran uwch o raddau da na myfyrwyr gwrywaidd, gyda'r bwlch ar ei fwyaf yn 2018 a 2019 (+7%). Mae Ffigur 3 yn dangos bod y bwlch wedi lleihau wedi hynny, ond mae cyrhaeddiad merched yn parhau i fod yn uwch (+3% yn 2021). Dyma'r unig grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol lle ceir bwlch cyrhaeddiad cadarnhaol.




*Ffigur 3. Graddau 1af/2:1 a ddyfarnwyd, yn ôl rhyw: tuedd 5 mlynedd*

Er bod cynnydd wedi bod yng nghyfran y myfyrwyr hŷn sy'n cael gradd dda dros y cyfnod adolygu, mae gwahaniaethau sylweddol a chyson yng nghyfran y graddau da a ddyfarnwyd yn ôl oedran, fel yr amlygir yn Ffigur 4. Mae'r data'n nodi bod cyrhaeddiad myfyrwyr hŷn yn faes sydd angen sylw neilltuol gan y Brifysgol at y dyfodol.





*Ffigur 4. Graddau 1af/2:1 a ddyfarnwyd, yn ôl oed: tuedd 5 mlynedd*

---


[2] Yn seiliedig ar ryw y myfyriwr. Mae HESA yn darparu categori "Arall", ond mae diffyg niferoedd yn golygu na allwn adrodd ar ddata y tu allan i ddiffiniadau deuaidd "Benywaidd" a "Gwrywaidd" ar hyn o bryd.

Mae cyfran y myfyrwyr ag anabledd sy'n cael gradd dda 2% yn is na chyfartaledd y Brifysgol, er ei bod yn gadarnhaol bod y bwlch rhwng myfyrwyr sydd ag anabledd a myfyrwyr nad oes ganddynt anabledd yn llai na grwpiau eraill yr adroddir amdanynt (Ffigur 5). Mae'r bwlch wedi tyfu o -0.5% yn 2020, i -3% yn 2021 (Tabl 2).




*Ffigur 5. Graddau 1af/2:1 a ddyfarnwyd, yn ôl statws anabledd: tuedd 5 mlynedd*

Mae'r gwahaniaeth o ran cyrhaeddiad gradd o fewn grwpiau ethnig yn sylweddol (Tabl 2). Cynyddodd cyfran y myfyrwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol sy'n ennill gradd dda dros y cyfnod adolygu, fodd bynnag mae'n amlwg bod bwlch cyrhaeddiad yn ystod y cyfnod hwnnw. Lleihau a wnaeth y bwlch dros y blynyddoedd diwethaf, ond roedd cyrhaeddiad pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol 9% yn is na chyrhaeddiad myfyrwyr gwyn yn 2021, ac 8% yn is na chyfartaledd y Brifysgol. Mae'r data'n nodi bod dileu'r bwlch cyrhaeddiad hwn yn faes sydd angen sylw neilltuol gan y Brifysgol at y dyfodol.[3]





*Ffigur 6. Graddau 1af/2:1 a ddyfarnwyd, yn ôl grŵp ethnig: tuedd 5 mlynedd*

Mae myfyrwyr o ardaloedd cyfranogiad isel [4] yn gyffredinol â lefelau cyrhaeddiad is na myfyrwyr o ardaloedd cyfranogiad uwch. Mae'r bwlch cyrhaeddiad wedi tyfu'n sylweddol yn 2021 (-11%), ac mae cyfran y graddau da a ddyfarnwyd i fyfyrwyr o feysydd ardaloedd cyfranogiad isel wedi gostwng yn 2021 (-4% ers 2020), ac mae 5% yn is na chyfartaledd y Brifysgol.

---


[3] Mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn adolygu'r defnydd o Pobl o Gefndiroedd Ethnig Lleiafrifol fel categori adrodd, ac rydym yn y broses o gytuno ar derminoleg newydd a mwy priodol.

[4] Mae Cymdogaethau Cyfranogiad Isel (LPN) yn seiliedig ar fethodoleg POLAR 4, ac yn nodi ardaloedd sy'n draddodiadol â lefelau cyfranogiad isel mewn addysg uwch. Cymdogaethau Cyfranogiad Isel yw'r ardaloedd hynny yn y ddau gwintel isaf yn ôl diffiniad POLAR4. Dim ond i fyfyrwyr ifanc, llawn amser, sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig y mae hyn yn berthnasol.




*Ffigur 7. Graddau 1af/2:1 a ddyfarnwyd yn ôl mesurau ehangu cyfranogiad: tuedd 5 mlynedd*

Mae myfyrwyr o ardaloedd yng Nghymru sydd wedi eu dosbarthu ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig [5] wedi cael cyfran is o raddau da, o gymharu â myfyrwyr o ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru. Roedd y bwlch cyrhaeddiad ar ei fwyaf yn 2018 (-10%), ond mae wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn gyda'r bwlch yn cau'n sylweddol yn 2021.




*Ffigur 8. Graddau 1af/2:1 a ddyfarnwyd yn ôl mesurau ehangu mynediad: tuedd 5 mlynedd*

| | | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gender** | Female | 71.9% | 74.1% | 74.9% | 80.3% | 84.5% |
| | Male | 65.9% | 67.4% | 68.1% | 80.1% | 81.6% |
| | ***awarding gap*** | *5.9%* | *6.7%* | *6.8%* | *0.2%* | *3.0%* |
| **Age** | Mature | 61.4% | 62.1% | 64.8% | 72.2% | 77.2% |
| | Young | 71.5% | 74.1% | 73.9% | 82.9% | 85.6% |
| | ***awarding gap*** | *-10.1%* | *-12.0%* | *-9.1%* | *-10.8%* | *-8.3%* |
| **Disability** | Disability declared | 68.7% | 69.0% | 69.9% | 79.9% | 81.2% |
| | No disability declared | 69.5% | 71.9% | 72.4% | 80.4% | 84.1% |
| | ***awarding gap*** | *-0.8%* | *-3.0%* | *-2.5%* | *-0.5%* | *-3.0%* |
| **Ethnicity** | BAME | 63.6% | 56.9% | 67.5% | 71.6% | 75.2% |
| | White | 73.2% | 74.8% | 74.7% | 81.8% | 84.3% |
| | ***awarding gap*** | *-9.6%* | *-17.9%* | *-7.3%* | *-10.2%* | *-9.1%* |
| **Participation** | Low participation areas | 68.8% | 71.3% | 74.3% | 81.7% | 78.1% |
| | High Participation areas | 76.4% | 78.9% | 77.5% | 86.7% | 89.5% |
| | ***awarding gap*** | *-7.6%* | *-7.6%* | *-3.3%* | *-5.0%* | *-11.4%* |
| **Widening Access** | High deprivation areas | 67.1% | 60.2% | 63.6% | 73.0% | 77.5% |
| | Low deprivation areas | 69.0% | 70.5% | 71.8% | 78.5% | 78.4% |
| | ***awarding gap*** | *-1.9%* | *-10.4%* | *-8.2%* | *-5.5%* | *-0.9%* |

*Tabl 2. Proffil graddau israddedig, yn ôl grwpiau demograffig myfyrwyr*

[5] Caiff myfyrwyr o Gymru sy'n byw yn y ddau gwintel isaf yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru eu dosbarthu fel myfyrwyr sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig; diffinnir y rhai o'r ddau gwintel uchaf fel y rhai lleiaf difreintiedig

## 3. ASESU A MARCIO

Mae gan y Brifysgol set o egwyddorion ar waith sy'n rheoli ei dull asesu. Fe'u nodir yn y *Fframwaith Asesu,* a luniwyd yn 2018 ac a gymeradwywyd yn Adroddiad Adolygu Gwelliant y Brifysgol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) (2018). Mae'r egwyddorion yn eang eu cwmpas, gan roi sylw er enghraifft i ddyluniad asesiadau a chanllawiau manwl ar bwysoliad a chywerthedd asesiadau.

Mae'r *Fframwaith Asesu* ar gael i'r staff a'r myfyrwyr a'i fwriad yw sicrhau bod y staff a'r myfyrwyr yn rhannu disgwyliadau cyffredin ynghylch asesu. Mae'r *Fframwaith Asesu* yn gosod disgwyliad bod angen i asesu adlewyrchu, yn gynyddrannol, y lefel astudio a chyflwyno mesur priodol o her academaidd i fyfyrwyr. Mae'n ofynnol bod y rhai sy'n cynllunio asesiadau yn sicrhau bod asesiad yn mesur, mewn modd dilys, gyrhaeddiad myfyrwyr yn y deilliannau dysgu perthnasol, ac yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddangos y cyrhaeddiad hwnnw i'r lefel uchaf bosib.

Rhaid mapio pob asesiad ar sail o leiaf un o ddeilliannau dysgu'r modiwl. Mae'r rheiny'n gysylltiedig â deilliannau dysgu'r rhaglen, ac maent yn adlewyrchu datganiadau meincnod y pwnc a gofynion Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol lle bo hynny'n berthnasol. Mae deilliannau dysgu rhaglenni a modiwlau wedi'u grwpio yn ôl y meini prawf a nodir yn nisgrifyddion dosbarthiad canlyniadau gradd yr ASA gan gynnwys cymwyseddau proffesiynol lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r cysylltiadau rhwng deilliannau dysgu modiwl â deilliannau dysgu rhaglenni a datganiadau meincnod pwnc yn cael eu hegluro ym manyleb y rhaglen, a gedwir yn ganolog gan yr Uned Gwella Ansawdd. Ystyrir y dull asesu ac i ba raddau mae'n mapio ar y deilliannau dysgu wrth ddilysu modiwlau.

### 3.1. Marcio, gwirio a Byrddau Arholi

Fel y nodir yn Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig y Brifysgol, rhaid i Arholwr Allanol gymeradwyo pob cwestiwn a ddefnyddir mewn arholiadau sy'n cyfrif tuag at gymhwyster, er mwyn asesu priodoldeb, perthnasedd a lefel y cwestiynau yn unol â'u gwybodaeth am normau'r sector.

Bydd myfyrwyr yn defnyddio meini prawf marcio i ddeall yr hyn a ddisgwylir iddynt ei gyflawni. Mae'r Brifysgol yn defnyddio meini prawf marcio pwnc-benodol sy'n adlewyrchu cyd-destun y ddisgyblaeth a chyd-destun proffesiynol rhaglen. Mae meini prawf marcio penodol y modiwlau a'r asesiadau ar gael i bob myfyriwr.

Mae Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig y Brifysgol yn nodi'r broses ar gyfer gwirio marciau ac yn nodi diben hynny. Caiff marciau pob modiwl ledled y Brifysgol eu gwirio bob tro y cânt eu haddysgu. Mae gan bob Ysgol drefnau i ymdrin â gwahaniaethau sylweddol rhwng marcwyr a gwirwyr a chytunir ar ddatganiad o'r prosesau gwirio a ddefnyddir gan y Bwrdd Astudiaethau ac fe'i hystyrir pan gaiff Ysgol ei Harchwilio gan yr Uned Gwella Ansawdd. Mae pob Ysgol yn rhoi manylion y drefn wirio i fyfyrwyr.

Cedwir copïau wedi'u marcio o'r asesiadau ar gyfer yr Arholwr Allanol, a fydd yn rhoi barn ynglŷn â phriodoldeb yr arferion marcio, a byddant yn adrodd yn eu cylch mewn Byrddau Arholi Allanol ac yn yr adroddiad ysgrifenedig a anfonir at yr Uned Gwella Ansawdd, a bydd yn rhaid i'r ysgolion roi sylw i'r farn honno wrth gynllunio ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae'r Brifysgol yn defnyddio Adroddiadau Asesu ar Ansawdd Arholiadau Prifysgol (ARQUE) fel mecanwaith pellach i gymharu'r marciau a ddyfernir mewn gwahanol fodiwlau o fewn blynyddoedd a rhyngddynt, ac i gymharu'r marciau a gyflawnir gan fyfyrwyr ar bob modiwl â'u perfformiad mewn modiwlau eraill. Defnyddir y system, a gaiff ei chynnal gan staff yr Uned Gwella Ansawdd, yn bennaf i nodi modiwlau sy'n allanolion ym Myrddau Arholi Mewnol ac Allanol yr Ysgolion, ond mae hefyd yn nodi gwahaniaethau posibl ym mherfformiad myfyrwyr yn ôl rhywedd. Caiff ARQUE ei ganmol yn rheolaidd gan Arholwyr Allanol, sy'n adrodd ei fod yn cefnogi trafodaethau tryloyw ac adeiladol ynglŷn â marciau ar draws modiwlau ac yn rhoi sicrwydd iddynt fod y marcio'n gyson ac yn anwahaniaethol.

### 3.2. Arbenigedd allanol

Defnyddir arbenigedd allanol i gymeradwyo a dilysu rhaglenni gradd yn y lle cyntaf ac fel rhan o'r drefn flynyddol o sicrhau ansawdd trwy'r broses arholi allanol. Wrth fynd ati i gymeradwyo'r rhaglen yn y lle cyntaf caiff y strategaeth asesu ei hystyried yn fanwl, gan ddefnyddio arbenigedd mewnol ac allanol yn y pwnc ym mhob achos. Mae'n sicrhau bod dulliau addysgu ac asesu wedi'u halinio â phwyntiau cyfeirio ar draws y sector megis *Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon*, a Datganiadau Meincnod Pwnc sy'n benodol i ddisgyblaeth. Rhaid i raglenni sy'n dyfarnu cydnabyddiaeth broffesiynol neu Drwydded i Ymarfer, megis Nyrsio neu Waith Cymdeithasol, alinio â safonau'r Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheolaethol perthnasol(PSRBs). Yn yr achosion hynny, mae'r Brifysgol yn cefnogi cyfranogiad agos gan y cyrff hynny mewn paneli dilysu a monitro parhaus. Defnyddir yr un drefn i gymeradwyo rhaglenni a adolygir trwy'r cylch ailddilysu 5-6 mlynedd.

Yn ogystal â chymeradwyo cwestiynau arholiad ac archwilio asesiadau sydd wedi'u marcio, gofynnir i Arholwyr Allanol ddarparu adroddiad ysgrifenedig bob blwyddyn, a sylwadau llafar, i'r Bwrdd Arholi. Mae hyn yn cynnig sicrwydd bod safonau asesu a pherfformiad y myfyrwyr yn gymharol â safonau cyrsiau sefydliadau addysg uwch tebyg yn y Deyrnas Unedig ac yn cyd-daro â fframweithiau cenedlaethol. Yn yr achosion prin hynny pan fo Arholwyr Allanol yn codi pryderon, bydd yr Uned Gwella Ansawdd yn sicrhau bod yr ysgolion yn mynd i'r afael â'r rheiny'n llawn ac ystyrir yr achosion a'r ymatebion hynny gan gorff gwneud penderfyniadau Addysgu a Dysgu canolog y Brifysgol.

Ymdrinnir ag adroddiadau'r Arholwyr Allanol trwy broses adolygu flynyddol y Brifysgol ar gyfer pob modiwl a rhaglen. Cynhelir yr adolygiadau hynny gan arweinwyr modiwlau a rhaglenni a rhaid iddynt, ynghyd â sylwadau'r Arholwr Allanol, roi sylw i berfformiad cymharol y myfyrwyr fel y'i hamlinellir gan ddata ARQUE, ac adborth y myfyrwyr (o amrywiol ffynonellau gan gynnwys gwerthusiadau modiwlau) ynghyd â hunanadfyfyrio ar sail addysgeg.

Caiff yr Arholwyr Allanol eu dewis, eu cymeradwyo a'u hyfforddi'n unol â Chanllawiau ar Arbenigedd Allanol yr ASA.

## 4. LLYWODRAETHU ACADEMAIDD

Rhaid i Gyngor y Brifysgol benderfynu a yw'r Brifysgol yn cyflawni holl safonau *Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru*. Y Cyngor sydd â'r dasg o gymeradwyo'r datganiadau ansawdd blynyddol, sy'n golygu sicrhau: "Bod safonau'r cymwysterau rydym yn gyfrifol amdanynt wedi cael eu gosod a'u cynnal yn briodol." Mae Adroddiad Sicrhau Ansawdd blynyddol yn fodd i fodloni'r Cyngor bod y Brifysgol yn parhau i gyflawni'r disgwyliadau cenedlaethol a'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer safonau gradd.

Fel y nodir yn Siarter y Brifysgol, y Senedd yw "awdurdod academaidd" y Brifysgol, sy'n gyfrifol am y "gwaith academaidd". Y Senedd yw'r corff llywodraethol ar faterion academaidd (ond nid materion rheolaethol) ac mae'n gyfrifol am yr holl faterion academaidd sy'n effeithio ar y Brifysgol.

Dirprwywyd y gwaith o oruchwylio gweithrediad y mecanweithiau Sicrhau Ansawdd uchod gan y Senedd i Grŵp Strategaeth Addysgu a Dysgu'r Brifysgol. Nhw sy'n ystyried materion sy'n ymwneud â chanlyniadau gradd, perfformiad myfyrwyr a dosbarthiadau gradd yn sgil yr adolygiadau mewnol ac allanol parhaus.

Mae Byrddau Astudiaethau a Byrddau Cymwysterau'r Ysgolion (sy'n is-grwpiau i'r Byrddau Astudiaethau) yn gyfrifol am ansawdd eu cymwysterau ac yn ddarostyngedig i reoliadau'r Brifysgol. Bydd swyddogion Sicrhau Ansawdd yn mynychu'r Byrddau Cymwysterau yn ystod y flwyddyn cyn yr Archwiliadau Ansawdd Mewnol i wirio bod arferion priodol yn cael eu dilyn ac mae'n ofynnol hefyd i Arholwyr Allanol gadarnhau bod y Byrddau hynny'n dilyn rheoliadau'r Brifysgol.

Mae'r Grŵp Gwella Ansawdd, sy'n is-grŵp o Grŵp Strategaeth Addysgu a Dysgu'r Brifysgol, yn ystyried yr adolygiadau blynyddol ar Lefel Rhaglenni. Bydd y grŵp hwnnw, o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor Addysgu a Dysgu, yn cynnwys Cyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu'r Colegau a chynrychiolaeth o'r Uned Sicrhau Ansawdd, yn adfyfyrio ynghylch y materion a godir, yr arferion gorau, tueddiadau ledled y Brifysgol, cyfleoedd i wella ac anghenion hyfforddi.

Caiff pob rhaglen hyfforddedig ei hailddilysu ar sail gylchol bob 5-6 mlynedd, a hynny fel rheol fel rhan o ddilysu rhaglenni hyfforddedig ledled yr ysgol. Gall pryderon ynghylch ansawdd yr addysgu ac asesu ysgogi dilysiad y tu allan i'r cylch arferol.

## 5. ALGORITHM DOSBARTHIAD GRADDAU

Mae'r Brifysgol yn defnyddio un algorithm i bennu dosbarthiadau gradd ar gyfer Graddau Baglor (Anrhydedd). Mae'r cyfrifo'n golygu ychwanegu canran gyffredinol modiwlau blwyddyn dau at ganran gyffredinol modiwlau blwyddyn tri gan roi pwysoliad dwbl i'r ail gyfartaledd: [L5 + (L6 x 2). I raddau israddedig estynedig, yr algorithm yw [(0.4 x L6) + (0.6 x L7)]. Fodd bynnag, os cymeradwyir hynny ar adeg dilysu gellir cynnwys modiwlau blwyddyn dau (L5) hefyd fel a ganlyn: [L5 + (2 x L6) + (3 x L7)]/6.

Nid algorithm y graddau Baglor wedi cael ei addasu ers i'r Brifysgol dderbyn pwerau dyfarnu annibynnol yn 2007 ond mae'n destun adolygiad cyfnodol. Cynhaliwyd un adolygiad o'r fath yn 19/20 yng nghyd-destun *Principles of Effective Degree Algorithm Design* UKSCQA, a daethpwyd i'r casgliad bod y Brifysgol yn cadw'n driw at yr egwyddorion hynny.

## 6. ADDYSGU A DYSGU

Yn haf 2020 cafodd chwe **phroject ailafael** eu rhoi ar waith i sicrhau ymateb cadarn gan y sefydliad yng nghyd-destun y pandemig ym mlwyddyn academaidd 2020/21, gan fabwysiadu dull darparu deinamig er mwyn cyflawni dau nod addysgol allweddol:

1. Hwyluso dychwelyd i addysgu a dysgu ar y campws, mewn gweithleoedd ac yn y maes a gwneud y mwyaf o weithgarwch yn y cnawd.

2. Sicrhau bod y dulliau darparu a ddefnyddir gan ysgolion yn cyflawni'r nodweddion addysgol canlynol, sydd wrth galon Strategaeth Addysgu a Dysgu 2030 y Brifysgol: https://www.bangor.ac.uk/sites/default/files/2022-11/strategy2030-teaching-and-learning-strategy-cy_0.pdf

- Herio,
- Ymholi,
- Cymhwyso,
- Cydweithredu,
- Hunan-gyfeirio.

Wrth benderfynu sut i gynllunio eu haddysgu ystyriodd staff academaidd yr egwyddorion canlynol:

1. Ystyriwyd penderfyniadau a wnaed ynghylch addysgu oddi mewn i fodiwlau o ran eu perthynas â rhaglenni perthnasol.

2. Bod dysgu ar y campws, mewn gweithleoedd ac yn y maes yn darparu gwerth sylweddol a chafodd hynny ei annog ar draws rhaglenni fel sy'n briodol. Roedd cydnabyddiaeth nad oedd hyn yn berthnasol ar gyfer rhaglenni dysgu o bell, sydd â'u dulliau cyflwyno unigryw eu hunain.

3. Roedd gweithgareddau addysgu yn cael eu cynllunio i helpu i ddatblygu cysylltedd a rhyngweithio cymdeithasol trwy'r dysgu.

Yn ymarferol, drwy gydol blwyddyn academaidd 2021-22 ym Mhrifysgol Bangor roedd mwyafrif y rhaglenni yn defnyddio cydbwysedd o'r pedwar math o ddarpariaeth a ddisgrifir isod. Roedd natur benodol 1 i 4 yn amrywio'n naturiol yn ôl maes pwnc, ac yn dibynnu nid yn unig ar ffactorau megis cadw pellter cymdeithasol, capasiti ein hadeiladau, gofynion proffesiynol/achredu, ond hefyd rhyngweithiad ffactorau megis cyfundrefnau rheoli heintiau (e.e. glanhau ystafelloedd), capasiti adeiladau a gofynion yr amserlen.

Rhoddodd Staff ystyriaeth i'r dull deinamig a'r profiad cysylltiedig ar lefel rhaglen ac ar draws y flwyddyn academaidd yn hytrach nag mewn modiwlau unigol neu ar adegau gwahanol. Yn ogystal, mae'n werth meddwl yn nhermau oriau dysgu, nid oriau cyswllt, ac ystyried yr amrywiaeth o weithgareddau addysgu a dysgu y byddai myfyriwr wedi eu gwneud. Sylwer hefyd na ddefnyddir y term 'wyneb yn wyneb' isod, oherwydd gall addysgu fod 'wyneb yn wyneb' trwy ddulliau ar-lein (e.e., cyfarfod tiwtorial neu oruchwyliaeth a gynhelir trwy Teams).

**Mathau o ddarpariaeth**

**1. Yn fyw yn y cnawd (cydamserol)**

Ar gael i fyfyrwyr ar y campws ym Mhrifysgol Bangor

Wedi'i gynnwys fel arfer:

a. Darlithoedd (lle mae capasiti'r ystafell yn caniatáu)
b. Tiwtorialau mewn grwpiau bach
c. Gweithdai
d. Sesiynau ymarferol
e. Gwaith maes
f. Sesiynau galw heibio drws agored
g. Dysgu seiliedig ar waith

**2. Cydamserol ar-lein**

Ar gael i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor ac i'r rhai na allant fod ar y campws oherwydd Covid-19

Yn cynnwys fel arfer:

a. Darlithoedd/seminarau/tiwtorialau/gweithdai/arddangosiadau/ac ati yn defnyddio meddalwedd briodol
b. Sesiynau galw heibio/oriau swyddfa/cyfarfodydd un i un yn defnyddio meddalwedd briodol
c. Fforymau trafod byw

**3. Cydamserol hybrid**

Sesiynau cydamserol a gyflwynir ar yr un pryd i grwpiau yn y cnawd ac ar-lein.

Yn cynnwys fel arfer:

a. Darlithoedd/seminarau/tiwtorialau/gweithdai/arddangosiadau/ac ati yn defnyddio meddalwedd briodol
b. Fforymau trafod byw

**4. Anghydamserol ar-lein**

Ar gael i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor ac i'r rhai na allant fod ar y campws oherwydd Covid-19

Bydd fel rheol yn cynnwys:

a. Darlithoedd/arddangosiadau wedi eu recordio, adnoddau, ac ati ar gael ar Blackboard
b. Cyhoeddiadau Blackboard a diweddariadau e-bost
c. Trafodaethau trwy fforymau ar-lein

Yn ogystal â'r uchod, roedd myfyrwyr hefyd yn cymryd rhan yn y dysgu cyfeiriedig a hunan-gyfeiriedig arferol (e.e. asesu ffurfiannol, darllen, adolygu, paratoi a chwblhau asesiadau).

Cadeiriodd y Pennaeth Gwella Ansawdd un o'r **prosiectau ailafael**, oedd yn canolbwyntio ar yr oruchwyliaeth ganolog dros newidiadau a gynigiwyd gan yr Ysgolion Academaidd o ran eu haddysgu a'u hasesu yn unol â'r ddarpariaeth uchod yng nghyd-destun y pandemig. Cafodd y cynlluniau hyn eu hystyried mewn fforwm Prifysgol gyfan (y Grŵp Cymeradwyo Rhaglenni) ym mis Medi 2020, gyda chadarnhad y gellid bodloni holl ddeilliannau dysgu holl raglenni'r Brifysgol ym Mangor a'i rhaglenni cynwysedig ar gyfer y myfyrwyr oedd yn graddio yn 2021. Dilynwyd proses gyfochrog ar gyfer darpariaeth gydweithredol drwy Fyrddau Rheoli Partneriaethau neu gyrff cyfatebol. Roedd y broses gynllunio gadarn hon yn golygu fod modd i'r Brifysgol gynnal ei phrosesau sicrhau ansawdd rhagorol.

Yn ystod 2020/21 cafwyd cyfnod o ehangu cyflym mewn gweithgarwch gwelliant academaidd a hynny trwy gyfrwng wyth o **Brosiectau Sgaffaldiau Addysgu a Dysgu** sy'n cefnogi'r ymdrechion i wreiddio Strategaeth Addysgu a Dysgu 2030. Canolfan Gwella Dysgu ac Addysgu (CELT) y Brifysgol oedd canolbwynt y gwelliannau a'r gefnogaeth hon, a hynny trwy wneud y pethau canlynol:

- cynnig Datblygiad Proffesiynol Parhaus i staff academaidd ledled y Brifysgol.
- cefnogi staff i wneud cymwysterau ffurfiol mewn addysgu ym maes addysg uwch trwy'r Dystysgrif Ôl-radd mewn Addysg Uwch a Chynllun Cymrodoriaethau'r AAU.
- Datblygu ein cynllun gwerthuso modiwlau.

Bu Bangor ar flaen y gad wrth ymgorffori'r egwyddor o gydgynhyrchu o ran cynllunio, dilysu ac adolygu'r cwricwlwm. Hefyd, defnyddia'r Brifysgol ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth a data i benderfynu ynghylch cynllunio ac adolygu'r cwricwlwm, gan ddefnyddio amryw o setiau data ansoddol a meintiol.

Mabwysiadodd y Brifysgol y defnydd o feddalwedd recordio darlithoedd fel ffordd o helpu'r myfyrwyr i ddysgu a datblygodd 'Bolisi Panopto' i gynnig fframwaith arweiniol i'w ddefnyddio. Yn ychwanegol, parhaodd y Brifysgol i fuddsoddi mewn cyfleusterau addysgu (gan gynnwys cyfleusterau labordy a pherfformio), gwasanaethau llyfrgell, cyfleusterau dysgu cymdeithasol a thechnolegau dysgu.

Mae'r Brifysgol yn darparu amrywiaeth dda o wasanaethau cefnogi myfyrwyr a datblygodd system y Ganolfan Geisiadau i wella sut y caiff ceisiadau myfyrwyr am gefnogaeth gyda'u hastudiaethau eu rheoli.

## 7. CAMAU GWEITHREDU

Mae'r camau canlynol sy'n deillio o Ddatganiad Canlyniadau Gradd 2020/21 ar y gweill ar hyn o bryd:

a) Adolygu'r Datganiad Canlyniadau Gradd yng Ngrŵp Strategaeth Addysgu a Dysgu'r Brifysgol.
b) Lledaenu data am ddyfarniadau gradd ein myfyrwyr ar lefel pwnc yn ôl nodweddion demograffig i ysgolion a chreu cynlluniau gweithredu dyfarniadau gradd fesul Ysgol.
c) Cyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu'r Colegau i fonitro cynlluniau gweithredu dyfarniadau gradd